
SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME
COMMISSIONER NORTH WALES

HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE

# POLISI GWERTH CYMDEITHASOL 2024






# TABL O'R CYNNWYS

Gogledd Cymru a'r Polisi ........ 2

Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012 ........ 3

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ........ 4

Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ........ 5

Y Trydydd Sector / Y Sector Gwirfoddol a Chymunedol ........ 6

Blaenoriaethu ........ 8

Themâu a Chanlyniadau Cymdeithasol SCHTh a HGC ........ 8

Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio ........ 9

Datganiad a Chwestiwn ........ 10

Cyflawni Gwerth Cymdeithasol – Beth ydych angen ei wybod ........ 11

Casgliad ........ 15

Atodiadau 1 - Y Broses Comisiynu a Chaffael Gwerth Cymdeithasol ........ 17



# GOGLEDD CYMRU A'R POLISI

Ystyrir Gogledd Cymru yn un o'r llefydd mwyaf prydferth i fyw ac ymweld yn y DU. Gyda phoblogaeth o 687,500, mae ardal Heddlu Gogledd Cymru yn cwmpasu ardal 6,300 cilomedr sgwâr sy'n ymestyn o Bronington yn y dwyrain i Aberdaron yn y gorllewin ac o Fae Cemaes yn y gogledd i Aberdyfi yn y de.

Mae ardal yr Heddlu yn cynnwys tair dinas sef Bangor, Llanelwy a Wrecsam a chwe sir ddaearyddol Gogledd Cymru, sef Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Gwasanaethir ardal yr Heddlu gan un Bwrdd Iechyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a chan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Mae'r ardal hefyd yn cael ei gwasanaethu gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS). Mae'r ardal yn cynnwys ardaloedd trefol a gwledig gan gynnwys dwy ddinas, Parc Cenedlaethol Eryri, dau borthladd o bwys (Caergybi ym Môn a Mostyn yn Sir y Fflint), rhanbarthau diwydiannol sy'n ehangu  a nifer o drefi prysur, llawer ohonynt yn denu nifer fawr o dwristiaid yn ystod misoedd yr haf.

Mae gan bobl Gogledd Cymru incwm gwario gros aelwydydd y pen o £15,332 (85% o gyfartaledd Cymru) ac mae'n cynnwys cyfran uchel o drigolion oedrannus, gall y ffigwr hwn gynyddu oherwydd nifer y bobl sy'n symud i'r ardal i ymddeol a nifer net o gymudwyr sy'n gweithio y tu allan i'r rhanbarth yn ardaloedd Caer, Glannau Mersi a Manceinion.

Ar hyn o bryd mae'r gyfradd gyflogaeth yng Nghymru yn 75.1% o'i gymharu â 75.5% ar gyfer y DU. Mae'r gyfradd ddiweithdra (hynny yw pobl nad ydynt yn gweithio ond fyddai'n gallu gweithio) yn 4.8% o'i gymharu â 4.1% yn y DU.

Busnesau Micro Bach (busnes sy'n cyflogi rhwng 0 a 9 o bobl) yw asgwrn cefn economi Gogledd Cymru. Ledled Cymru mae dros 260,000 o fentrau gweithredol gyda chynnydd o dros 55% mewn busnesau micro.

Mae Datblygu Gwerth Cymdeithasol yn y rhanbarth yn cael ei gefnogi ymhellach gan Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sydd, fel Gwerth Cymdeithasol, yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi saith nod lles ar waith i Gymru, gyda'r nod o greu Cymru fwy cyfartal, ffyniannus, gwydn, iachach a chyfrifol fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog a iaith Gymraeg ffyniannus.

Cliciwch ar y ddolen er mwyn dysgu mwy am SCHTH a HGC.

**Y WELEDIGAETH** - mae cymunedau Gogledd Cymru yn ddiogel, mae dioddefwyr a phobl fregus yn teimlo eu bod yn cael cymorth, mae troseddu ac aildroseddu yn isel, ac mae gan bobl hyder mewn plismona a'r system cyfiawnder troseddol.




**Y POLISI** - Mae amlinellu polisi Gwerth Cymdeithasol newydd 2024 yn barhad ein taith ac mae'r polisi yn ceisio dangos sut y bydd SCHTh a HGC yn defnyddio'r polisi hwn i weithredu Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a sut y byddwn yn darparu gwerth cymdeithasol drwy gomisiynu a gweithgareddau caffael ac i nodi ein blaenoriaethau mewn perthynas â gwerth cymdeithasol. Mae'r polisi'n ei gwneud yn ofynnol i SCHTh, HGC a'n cyflenwyr gymryd cyfrifoldeb am yr hyn sy'n cael ei gomisiynu a'i gaffael a'i gefnogi yn foesegol ac yn gyfreithiol i gyflawni ein blaenoriaethau Gwerth Cymdeithasol.

Mae'r Polisi wedi bod yn seiliedig ar gefnogi blaenoriaethau sefydliadol presennol a byddwn yn gwahodd ceisiadau arloesol gan gyflenwyr hen a newydd sy'n nodi sut y gellir darparu gwasanaeth tra'n cefnogi cyflawni'r blaenoriaethau hyn ar yr un pryd.




# DEDDF GWASANAETHAU CYHOEDDUS (GWERTH CYMDEITHASOL) 2012 - (PSSVA 2012)

Ar y cyd â'r ddeddf, mae SCHTh a HGC wedi ymrwymo i Werth Cymdeithasol a byddant yn ymdrechu sicrhau bod materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn cael eu hystyried yn ystod pob cam o'n proses gomisiynu a chaffael ac fel rhan o gost oes gyfan cytundeb.

**CWMPAS Y DDEDDF** - Mae'r Ddeddf yn berthnasol i gontractau gwasanaethau a chontractau sy'n cyfuno gwasanaeth â phrynu neu logi nwyddau uwchben trothwy'r UE. Cliciwch yma am ragor o wybodaeth am y Ddeddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012

## YR HYN YR YDYM YN EI OLYGU WRTH WERTH CYMDEITHASOL

Mae Gwerth Cymdeithasol yn cynnwys tair colofn Caffael Cynaliadwy sef cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.




Mae'r Ddeddf Gwerth Cymdeithasol yn gofyn i bob corff cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr ystyried sut y gallai'r hyn y bwriedir ei gaffael wella **lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol** yr ardal berthnasol ac wrth gynnal y broses gaffael, sut y gallai weithredu gyda'r bwriad o sicrhau'r gwelliant hwnnw."

**CYNALIADWYEDD** - "Datblygiad sy'n bodloni anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol fodloni eu hanghenion eu hunain."[1]

**CAFFAEL CYNALIADWY** - "Proses lle mae sefydliadau'n diwallu eu hanghenion am nwyddau, gwasanaethau, gwaith a chyfleustodau mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian ar sail oes gyfan o ran creu buddion nid yn unig i'r sefydliad, ond hefyd i'r gymdeithas a'r economi, wrth leihau'r niwed i'r amgylchedd"[2]

[1] Comisiwn y Byd ar yr Amgylchedd a Datblygu: Ein Dyfodol Cyffredin (1987)

[2] Caffael y Dyfodol, Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Caffael Cynaliadwy: Argymhellion gan y Tasglu Caffael Cynaliadwy (2006)




# DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith tymor hir eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd ac atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

Mae Datblygu Gwerth Cymdeithasol ar draws Gogledd Cymru yn cael ei gefnogi ymhellach gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n croesawu Gwerth Cymdeithasol a Chyfalaf Cymdeithasol ac yn nodi saith nod er mwyn gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Y nod yw creu Cymru fwy cyfartal, ffyniannus, gwydn, iachach a chyfrifol fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus.

Yr Amcanion yw gwneud Cymru sy'n fwy

1. Llewyrchus
2. Gwydn
3. Iach
4. Cyfartal
5. Cydlynol o ran ei Chymunedau
6. Cyfrifol yn fyd-eang
7. Bywiog o ran diwylliant a chydag iaith Gymraeg llewyrchus




**NEWID DIWYLLIANNOL** - Mae'r Ddeddf yn mynnu newid diwylliant wrth weithio gyda'r unigolyn i'w cynorthwyo gyflawni ei ganlyniadau lles. Yn gyntaf, drwy ofyn "beth sy'n bwysig i chi?" ac yn ail drwy wneud y mwyaf o'u rhwydweithiau cymorth eu hunain a chael mynediad at adnoddau cymunedol a gwirfoddol, sy'n hanfodol i gyflawni nodau'r Ddeddf. Bydd cynllun gofal a chymorth yn dilyn dim ond os na ellir cyflawni canlyniadau lles. Y nod yw symud y cydbwysedd oddi wrth ofal a chymorth tymor hir, lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Gelwir y math hwn o ddull hefyd yn Gyfalaf Cymdeithasol sydd â'r pedair prif thema sef Dinasyddiaeth, Cymdogaeth, rhwydweithiau Cymdeithasol a chyfranogiad Dinesig i gyd gyda'r nod o wella lles unigolyn.

Mae SCHTh a HGC yn parhau bod yn ymrwymedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a sicrhau gwelliannau yn lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu drwy ein prosesau comisiynu, caffael a grant.



# DEDDF CAETHWASIAETH FODERN 2015 A MASNACHU MOESEGOL

**CAETHWASIAETH FODERN YN Y GADWYN GYFLENWI** - Er gwaethaf ei ddiddymu yn ôl pob sôn, mae'r arfer o gaethwasiaeth yn parhau bod yn gyffredin ym mhob gwlad yn y byd. O lafur gorfodol mewn amaethyddiaeth i'r slafdai sy'n cynhyrchu nwyddau cost isel ar gyfer cadwyni cyflenwi byd-eang neu o fasnachu unigolion yn anghyfreithlon fel 'eiddo', i gaethwasiaeth yn y pyllau glo sy'n tynnu'r deunyddiau crai a ddefnyddir mewn traul electronig – mae'r arfer o gaethwasiaeth fodern yn parhau bod yn hollbresennol. Yn ôl y Sefydliad Llafur Rhyngwladol mae tua 21 miliwn o ddynion, merched a phlant ledled y byd mewn rhyw fath o gaethwasiaeth. Amcangyfrifir eu bod yn creu elw o $ 150 biliwn (tua £128.5bn) y flwyddyn.

Mae caethwasiaeth fodern yn nes at adref nag y byddech chi'n ei feddwl. Yn sgil y drasiedi lle bu i 21 o weithwyr mudol Tsieineaidd foddi yn pigo cocos oddi ar arfordir Swydd Gaerhirfryn yn 2004, mae mathau newydd o gaethwasiaeth yn y DU wedi dod i'r amlwg ac mae'r ffaith ei fod yn codi'n aml yn peri pryder. Mae'r rhain yn cynnwys camfanteisio corfforol difrifol ar weithwyr domestig gan ddiplomyddion cyfoethog, cardota a lladrad gorfodol gan blant ifanc sy'n cael eu masnachu i'r DU, a charcharu dynion ifanc gan gangiau er mwyn rheoli 'ffermydd' canabis. Mae wedi dod yn fwyfwy amlwg bod cwmpas caethwasiaeth fodern yn llawer ehangach na'r hyn a dybiwyd o'r blaen.

**DEDDF CAETHWASIAETH FODERN 2015** - Y Ddeddf yw'r gyntaf o'i bath yn Ewrop, ac un o'r rhai cyntaf yn y byd, i fynd i'r afael yn benodol â chaethwasiaeth a masnachu yn yr 21ain ganrif. Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn gwella cymorth a gwarchodaeth i ddioddefwyr yn sylweddol, yn rhoi'r offer sydd eu hangen ar orfodi'r gyfraith er mwyn targedu gyrwyr caethweision heddiw a sicrhau y gellir cosbi'r troseddwyr yn ddifrifol. Mae'n cynnwys ***darpariaeth sy'n arwain y byd er mwyn annog busnes weithredu er mwyn sicrhau bod eu cadwyni cyflenwi yn rhydd o gaethwasiaeth o'r dechrau i'r diwedd.***

**EIN BLAENORIAETH** - Mae SCHTh a HGC wedi gosod blaenoriaeth i sicrhau bod ein cadwyni cyflenwi yn rhydd rhag achosion o gaethwasiaeth fodern, masnachu anfoesegol a thorri hawliau dynol o'r dechrau i'r diwedd.

**EIN DATGANIAD** - Datganiad Caethwasiaeth Fodern Heddlu Gogledd Cymru 2022-2023.pdf (northwales-pcc.gov.uk)

Er mwyn tanlinellu ein hymrwymiad i'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern a chyflogaeth foesegol o fewn y gadwyn gyflenwi, rydym wedi ymrwymo i God Ymarfer Llywodraeth Cymru. Gellir asesu dogfen cyfarwyddyd pecyn cymorth: www.gov.wales/code-of-practice




# Y TRYDYDD SECTOR / Y SECTOR GWIRFODDOL A CHYMUNEDOL

Mae'r Trydydd Sector (a elwir weithiau yn sector Gwirfoddol a Chymunedol) yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio'r amrywiaeth o sefydliadau nad ydynt yn sector cyhoeddus nac yn sector preifat. Mae'n cynnwys mudiadau gwirfoddol a chymunedol (elusennau cofrestredig a sefydliadau eraill fel cymdeithasau, grwpiau hunangymorth a grwpiau cymunedol), mentrau cymdeithasol, cydfuddiannol a chwmnïau cydweithredol.

Mae'r sefydliadau hyn yn cael eu cymell gan yr awydd i gyflawni nodau cymdeithasol (e.e. gwella lles y cyhoedd, yr amgylchedd neu les economaidd) yn hytrach na'r awydd am elw ac o'r herwydd gelwir y sefydliadau hyn yn aml yn 'sefydliadau di-elw'. Fodd bynnag, mae angen iddynt wneud elw er mwyn bod yn gynaliadwy yn ariannol. Oherwydd eu hawydd i gyflawni nodau cymdethasol, yn aml nhw sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni cytundebau sector cyhoeddus.

Mae tua 500,000 o fudiadau gwirfoddol a chymunedol yn y DU. Mae 168,850 ohonynt yn elusennau cofrestredig gyda chymysgedd o staff a gwirfoddolwyr cyflogedig. Rydym yn cydnabod y budd o weithio gyda'r sefydliadau hyn ac yn eu hystyried yn bartner allweddol wrth ddarparu gwasanaethau.

### Y COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD A CHYTUNDEB PARTNERIAETH Y TRYDYDD SECTOR

Mae'r cytundeb partneriaeth hwn rhwng Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (y Comisiynydd) a chwe chyngor gwasanaethau gwirfoddol gogledd Cymru ar ran y trydydd sector yng ngogledd Cymru ac mae swyddogion cyfrifol y sefydliadau priodol wedi cytuno arno. Mae'n darparu fframwaith er mwyn gwella ymgysylltu, datblygu nodau ac amcanion a rennir, parch a dealltwriaeth ar y cyd a bydd yn cynorthwyo'r Comisiynydd a phartneriaid yn y trydydd sector i wella ansawdd gwasanaethau i bobl gogledd Cymru.

Mae gweld gwasanaethau'n cael eu darparu ar y rheng flaen yn rhoi cipolwg ar y materion sy'n wynebu cymunedau. Bydd yn cynorthwyo'r Comisiynydd ddeall anghenion y gymuned a chynorthwyo datblygu blaenoriaethau plismona yn y dyfodol. Ceir mwy o wybodaeth ar http://www.northwales-pcc.gov.uk/en/Working-in-Partnership/Third-Sector.aspx

## PACT - YMDDIRIEDOLAETH HEDDLU GOGLEDD CYMRU A'R GYMUNED

Cafodd PACT ei lansio yn 1998 er mwyn cynorthwyo mentrau cymunedol, yn enwedig y rhai y mae'r Heddlu yn ymwneud â nhw, sy'n ceisio gwella ansawdd bywyd drwy leihau troseddu ac ofn troseddau yn holl gymunedau Gogledd Cymru. Ers 1998 mae PACT wedi cefnogi amrywiaeth eang o brosiectau, gan fuddsoddi dros £2,000,000 mewn cymunedau ledled Gogledd Cymru. Nod llawer o'r prosiectau hyn yw cynyddu dinasyddiaeth dda a chyfranogiad cymunedol er mwyn creu cymdogaethau mwy diogel.

Mae'r gwaith a ddarperir trwy'r llwyfan PACT gan gynnwys Eich Cymuned, Eich Dewis wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar fuddsoddi a chyflawni Blaenoriaethau Plismona.

Darllenwch yr hanes llawn yma .....

- Ewch i wefan PACT yn Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned (pactnorthwales.co.uk)
- PACT-Impact-Report-PUBLIC-ENG.pdf (pactnorthwales.co.uk)
- Adroddiadau blynyddol PACT: (pactnorthwales.co.uk)





# COSTAU A MANTEISION

**CYNALIADWYEDD A RHEOLI COSTAU** - Ni ddylai fod cost premiwm i brynu'n gynaliadwy os yw cynhyrchion yn cael eu caffael ar sail oes gyfan. Mae prynu'n gynaliadwy yn darparu nid yn unig Gwerth am Arian ar sail bywyd cyfan ond buddion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol i gymdeithas. Mae'n lleihau niwed i'r amgylchedd, defnyddio adnoddau ac yn cynhyrchu llai o wastraff. Bydd SCHTh a HGC yn ystyried opsiynau cynaliadwy ar bob caffael.

**COSTAU BYWYD CYFAN (WLC)** - WLC yw cyfanswm cost bod yn berchen ar ased ar hyd ei oes. Gelwir y broses hon hefyd yn Cyfanswm Cost Perchnogaeth neu Grud i'r Bedd. Mae WLC yn cynnwys yr holl gostau megis dylunio, gwasanaeth, cynnal a chadw, darparu, dibrisiant a gwaredu. Mae WLC yn ystyried rhai costau sydd fel arfer yn cael eu hanwybyddu, fel effaith amgylcheddol a chostau cymdeithasol.

**CAFFAEL TYMOR BYR** – Gyda phwysau cynyddol ar gyllidebau, bydd y pris isaf yn aml yn ddeniadol yn y tymor byr, ond efallai na fydd yn darparu'r cynnyrch terfynol gorau dros ei oes.

**CAFFAEL TYMOR HIR** - Gall hwn ddarparu mwy o fywyd gwasanaeth a chyflawniad ar gyfer WLC is, neu ddangos y bydd buddsoddiad cychwynnol uwch yn darparu mwy o fuddion tymor hwy gyda chostau cynnal a chadw a gweithredu sylweddol is.

**ADNODDAU** - er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio i'r eithaf, bydd y Comisiynydd yn cadw at yr egwyddorion canlynol:

- Targedu adnoddau er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau statudol a fy mlaenoriaethau heddlu a throsedd.
- Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau y cyflwynir gwasanaethau yn y ffordd fwyaf effeithiol.
- Sicrhau ein bod yn cael y budd ariannol a chymdeithasol mwyaf posibl i bobl Gogledd Cymru.
- Sicrhau bod staff a swyddogion wedi'u darparu'n briodol a chael gwasanaethau cymorth digonol i wneud y mwyaf o'r amser sydd ganddynt i gyflawni gwasanaethau plismona.

**BUDD CYMDEITHASOL** - yw canlyniad y broses o sicrhau gwerth cymdeithasol ac mae'n golygu cymaint o bethau gwahanol i gymaint o wahanol bobl. Mae Gwerth Cymdeithasol yng Nghymru yn ymwneud â lles Cymdeithasol, Economaidd, Amgylcheddol a Diwylliannol ac felly gall gynnwys unrhyw beth o greu swyddi i leihau gwastraff.

**NATUR GWERTH CYMDEITHASOL** - Mae bron yn amhosibl cael set o ganlyniadau Gwerth Cymdeithasol sy'n berthnasol yn gyson i bob cytundeb, yn bennaf oherwydd gwerth, natur ac amrywiaeth yr ystod eang o nwyddau a gwasanaethau a gomisiynir ac a gaffaelir ac fe'i cydnabyddir na all fod model 'un maint i bawb'.

Felly, arfer gorau yw cymhwyso'r polisi hwn mewn modd cymesur, wedi'i deilwra i adlewyrchu'r gwasanaeth neu'r nwyddau sydd i'w caffael. Rôl comisiynwyr gwasanaethau ac arweinwyr caffael yw ystyried, ar sail cytundeb wrth gytundeb y canlyniadau gorau y gellid eu cyflawni drwy'r broses gaffael a'r llwybr mwyaf priodol i'w cyflawni.

Mae angen ystyried gwella lles rhanbarth cyn dechrau'r broses gan ei bod yn gyfle i ddylanwadu ar ddewis cyflenwr a all ddarparu buddion economaidd a chymunedol ehangach.




# BLAENORIAETHU

Plismona cymdogaethau yw sylfaen y polisi a'r sylfaen y bydd yr holl flaenoriaethau eraill yn cael eu cyflawni arni. Mae SCHTh a HGC wedi nodi amcanion a chanlyniadau wrth ystyried dogfennau sefydliadol allweddol, deddfwriaeth a chanllawiau ac ymgyrch i gefnogi pobl a busnesau lleol lle bynnag y bo modd, gan sicrhau nad ydynt dan anfantais.

- Amcanion y Cynllun Heddlu a Throsedd 2021-2024
- Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio Llywodraeth Cymru
- Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015


**Mae SCHTh a HGC yn bwriadu**

1. Creu cymdogaethau a chymunedau mwy diogel, adeiladu economi gryfach, canolbwyntio ar gynaliadwyedd a datgarboneiddio a chreu Gogledd Cymru bywiog a chyfrifol.
2. Sicrhau mwy o Gyfalaf Cymdeithasol (yr ewyllys da a grëir o gysylltiadau cymdeithasol), fel ***dinasyddiaeth, cymdogaeth, rhwydweithiau cymdeithasol a chyfranogiad dinesig.***





# THEMÂU A CHANLYNIADAU CYMDEITHASOL SCHTH A HGC




Mae'r blaenoriaethau uchod yn cael eu trosi'n Themâu a Chanlyniadau yn y diagram ar dudalen 9 gyda mesurau pellach ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau a ddangosir yn y Fframwaith Canlyniadau.

| CYMDEITHASOL | ECONOMAIDD | AMGYLCHEDDOL | DIWYLLIANNOL |
|---|---|---|---|
| **CREU CYMUNEDAU CYNALIADWY A DIOGELACH**<br>• Darparu pecynnau iechyd, lles a chymorth<br>• Gweithio'n well â chymunedau, pobl a gyda'i gilydd (Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol)<br>• Creu gallu a chymorth i'r Trydydd Sector (gan gynnwys y sector gwirfoddol a chymunedol) | **CYNORTHWYO CREU ECONOMI GRYFACH YN G. CYMRU**<br>• Cynorthwyo busnes lleol a gwario arian yn lleol<br>• Creu swyddi, prentisiaethau a chyfleoedd hyfforddiant o fewn y gymuned leol<br>• Lleihau anghydraddoldeb, codi safonau byw a gweithio tuag at dalu cyflog byw | **DEFNYDD CYNALIADWY A LLAI O DDEFNYDD**<br>• Gwella'r amgylchedd<br>• Lleihau defnydd ynni ac allyriadau CO2<br>• Cynyddu defnydd a chynhyrchu cynaliadwy a gwyrddach | **CREU G. CYMRU BYWIOG A CHYFRIFOL**<br>• Cynorthwyo creu iaith Gymraeg ffyniannus<br>• Cynorthwyo creu diwylliant a threftadaeth fywiog yng Nghymru<br>• Hyrwyddo masnachu foesegol a lleihau achosion o Gaethwasiaeth Fodern |



# CYNALIADWYEDD A DATGARBONEIDDIO

Ers i'r Polisi Gwerth Cymdeithasol cyntaf gael ei ysgrifennu yn 2017, y newid a'r dylanwad mwyaf i Werth Cymdeithasol yw'r ymgyrch i Sero Net 2050.

O dan Ddeddf Newid Hinsawdd 2008 i ddechrau, mae'n ofynnol i Gymru gyfrannu at darged Sero Net y DU 2050 a chyllidebau carbon y DU. Mae'r Ddeddf yn pennu dyletswydd ar Weinidogion Cymru adrodd ar amcanion, gweithredoedd a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol o ran effeithiau newid yn yr hinsawdd ac mae hyn wedi arwain at yr ymgyrch tuag at ddatgarboneiddio, i gynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cyfrannu at y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer trosglwyddo Cymru i fod yn Sero-Net. Mae deddfwriaeth bellach yn cael ei datblygu yn ystod 2021 er mwyn gosod targedau allyriadau dros dro ar y llwybr at Gymru Sero-Net.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu 'map llwybr ar gyfer datgarboneiddio' i Sector Cyhoeddus Cymru gael Statws Carbon Sero Net erbyn 2030. Yn unol â deddfwriaeth a'r strategaeth ehangach hon, mae'n ofynnol i heddluoedd ddatblygu Strategaeth Gynaliadwyedd a fydd yn nodi llwybr at leihau allyriadau carbon, mewn ymgais i gyflawni allyriadau sero net yn unol â deddfwriaeth Cymru a'r DU.

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn gweithio gyda heddluoedd eraill Cymru er mwyn datblygu ei Strategaeth, Cynlluniau Datgarboneiddio a Chynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy diwygiedig, gan gydnabod bod y 2020au yn gyfnod tyngedfennol ar gyfer gwneud cynnydd hyd at 2030.

Mae'n debygol y bydd cynnydd yn ystod y Cynllun Heddlu a Throseddu hwn yn cynnwys gweithredu mewn perthynas â'r meysydd canlynol:

- cymryd atebion carbon isel
- ehangu cyflenwadau ynni carbon isel
- lleihau'r galw am weithgareddau carbon uchel
- ystyried trawsnewid tir.




# CWESTIYNAU GWERTH CYMDEITHASOL

O fewn ein prosesau tendro, rydym yn cynnwys cwestiynau wedi'u sgorio ar y pynciau canlynol:

- Caethwasiaeth Fodern
- Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg
- Effaith ar yr amgylchedd.
- Cynaliadwyedd
- Cynlluniau lleihau carbon
- Rheoli gwastraff yn gyfrifol
- Effeithlonrwydd ynni

**DATGANIAD** - Mae SCHTh a HGC yn parhau bod yn ymrwymedig i Ddeddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, gan sicrhau bod materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn cael eu hystyried ar bob cam o'n proses gomisiynu a chaffael, ac fel rhan o gost oes gyfan cytundeb.

**Mae SCHTh a HGC yn bwriadu**

1. Creu cymdogaethau a chymunedau mwy diogel, adeiladu economi gryfach, canolbwyntio ar gynaliadwyedd a datgarboneiddio a chreu Gogledd Cymru bywiog a chyfrifol.
2. Sicrhau mwy o Gyfalaf Cymdeithasol (yr ewyllys da a grëir o gysylltiadau cymdeithasol), fel *dinasyddiaeth, cymdogaeth, rhwydweithiau cymdeithasol a chyfranogiad dinesig.*



# DARPARU GWERTH CYMDEITHASOL – BETH YDYCH ANGEN EI WYBOD

Cyfreithiol - Daeth Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012 i rym ar 31 Ionawr 2013 a daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i rym ym mis Ebrill 2015. Maent yn ei gwneud yn ofynnol i bobl sy'n comisiynu gwasanaethau cyhoeddus feddwl am sut y gallant hefyd sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach.

Cyn iddynt ddechrau'r broses gaffael, mae comisiynwyr yn meddwl a allai'r gwasanaethau y byddant yn eu prynu, neu'r ffordd y maent yn mynd i'w prynu, sicrhau'r buddion ehangach hyn i'w hardal neu eu rhanddeiliaid.

Mae'r Ddeddf yn offeryn er mwyn cynorthwyo comisiynwyr gael mwy o werth am arian allan o gaffael. Mae hefyd yn annog comisiynwyr siarad â'u marchnad neu gymuned darparwyr lleol er mwyn llunio gwell gwasanaethau, yn aml yn dod o hyd i atebion newydd ac arloesol i broblemau anodd.

## DEDDFWRIAETH CAFFAEL NEWYDD

Bydd Deddf Caffael 2023 yn dod i rym ar 26 Hydref 2024 sy'n diddymu rheoliadau caffael cyfredol yr UE sy'n seiliedig ar gyfraith, yn gosod rheolau a gweithdrefnau newydd ar gyfer y sector cyhoeddus wrth ddewis cyflenwyr a dyfarnu cytundebau sydd â gwerth uwchlaw trothwyon penodol.

Mae'r ddeddf hon yn

- creu **system fasnachol symlach a mwy hyblyg** sy'n diwallu anghenion ein gwlad yn well wrth barhau cydymffurfio â'n rhwymedigaethau rhyngwladol
- agor caffael cyhoeddus i newydd-ddyfodiaid fel **busnesau bach a mentrau cymdeithasol fel y gallant gystadlu ac ennill mwy o gontractau cyhoeddus**
- ymgorffori tryloywder trwy gydol y cylch bywyd masnachol **fel y gellir craffu ar wariant arian trethdalwyr yn iawn.**

## MAE PARATOI CYNNAR YN ALLWEDDOL

Cyn i chi ddechrau unrhyw gaffaeliad, dylech feddwl yn ofalus a fydd y nwyddau neu'r gwasanaethau rydych chi'n mynd i'w prynu, a'r ffordd rydych chi'n mynd i'w prynu, yn sicrhau buddion gwerth cymdeithasol.

Ystyriwch werth cymdeithasol cyn gynted â phosibl, yn ddelfrydol pan fydd eich gofyniad yn dal i fod yn y cyfnod cyn-gaffael / datblygu.

Bydd y penderfyniadau a wnewch yn ystod y cam hwn yn rhan annatod o'r cytundeb terfynol a'r math o gyflenwyr a fydd yn ei gyflawni. Mae angen iddo fod yn iawn o'r dechrau.

Fel cam cyntaf, ymgynghorwch â'ch rhanddeiliaid allweddol, marchnad gyflenwi, a sylfaen cwsmeriaid, i ddod i ddeall yn gyffredin sut beth fyddai gwerth cymdeithasol ar gyfer eich cytundeb. Mae llawer o sefydliadau eisiau bod yn gyfranwyr effeithiol at werth cymdeithasol a byddant yn hapus i ddechrau sgwrs gyda chi. Efallai y bydd rhai asiantaethau cyhoeddus a chwmnïau masnachol yn gallu darparu astudiaethau achos neu dystiolaeth ategol arall i ddangos sut y maent wedi'i chyflawni yn y gorffennol.

Bydd y broses gaffael yn fwy llwyddiannus os oes gennych ddealltwriaeth glir o beth yw eich 'gofyn' gwerth cymdeithasol. Defnyddiwch hwn wrth ddrafftio eich manyleb a gwerthuso cwestiynau er mwyn osgoi unrhyw synnwyr bod gwerth cymdeithasol yn fympwyol.

Byddwch yn benodol am y themâu yr hoffech i gynigwyr ganolbwyntio arnynt - boed hynny'n creu swyddi newydd, diogelu'r amgylchedd neu'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb. Nodwch yn glir eich amcanion a'r canlyniadau gwerth cymdeithasol yr ydych am eu cyflawni ar gyfer pob thema.

Mae rhagor o wybodaeth am sut rydym yn caffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith ar gael yn y Polisi Caffael.




# CASGLIAD

Mae'n rhaid i SCHTh a HGC ystyried cyn dechrau proses gomisiynu a chaffael, sut y gellir gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y rhanbarth trwy gaffael nwyddau, gwaith a gwasanaethau fel rhan o'r broses o gomisiynu a chaffael. Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nod y Deddfau yw sicrhau, fel rhan o'r prosesau comisiynu a chaffael, fod cyrff y Llywodraeth yn ystyried effaith ehangach darparu'r gwasanaethau. Mae'n caniatáu cyflenwr gael ei ddewis sydd nid yn unig yn darparu'r gwasanaeth mwyaf manteisiol yn economaidd, ond un sy'n mynd y tu hwnt i delerau sylfaenol y cytundeb ac sy'n sicrhau buddion ehangach i'r gymuned.

Ers i Bolisi Gwerth Cymdeithasol cyntaf 2017 gael ei ysgrifennu, y newid a'r dylanwad mwyaf i Werth Cymdeithasol fu'r ymgyrch i Sero Net 2050.

Mae SCHTh a HGC wedi datblygu cynllun Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio i fynd i'r afael â'r ymgyrch i sero net ac adlewyrchir cam un y cynllun 2022-23 ym Mholisi Gwerth Cymdeithasol 2024 a Fframwaith Canlyniadau ategol.

Rhagwelir y bydd Polisi Gwerth Cymdeithasol 2024 yn bolisi dros dro gyda pholisi pellach yn cael ei fabwysiadu i adlewyrchu cam 2 y cynllun Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio a thymor newydd y  Comisiynydd Heddlu a Throsedd o ganol 2024 i 2027 wrth i'r SCHTh barhau ar hyd y Daith Gwerth Cymdeithasol.

Drwy barhau ymgorffori Gwerth Cymdeithasol yn ein prosesau comisiynu a chaffael, gobeithiwn y byddwn yn parhau dod â budd sylweddol i Ogledd Cymru a'i thrigolion drwy ddarparu elw cymdeithasol, lle bynnag y bo modd, ar bob punt a wariant.

# DOLENNI DEFNYDDIOL

| | |
|---|---|
| Rydym yn hysbysebu llawer o'n cytundebau ar Borth BlueLight | https://bluelight.eu-supply.com/ |

## DOLENNI DEFNYDDIOL ERAILL:

| | |
|---|---|
| Deddf Gwerth Cymdeithasol | http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2012/3/enacted |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted |
| Deddf Caethwasiaeth Fodern | http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2015/30/contents/enacted |
| Darganfyddwr Cytundeb | Contracts Finder - GOV.UK (www.gov.uk) |
| Cyflog Byw | http://www.livingwage.org.uk/ |
| Lleiafswm Cyflog Cenedlaethol | https://www.gov.uk/national-minimum-wage-rates |

## DOLENNI DOGFENNAU SCHTH A HGC

| | |
|---|---|
| Cynllun Heddlu a Throsedd | Police-and-Crime-Plan-2021.pdf (northwales-pcc.gov.uk) |
| Rheolau Sefydlog Cytundebau | Standing orders for Contracts 2022.pdf (northwales-pcc.gov.uk) |
| Y Trydydd Sector | Third Sector \| Office of the Police and Crime Commissioner North Wales (northwales-pcc.gov.uk) |
| Cydraddoldeb | 87975 - Equality Plan Bklt (e).pdf (northwales-pcc.gov.uk) |
| PACT | North Wales Police and Community Trust (pactnorthwales.co.uk) |
| Adroddiad a Chyfrifon PACT 2021 | www.pactnorthwales.co.uk/annual-reports/ |
| Eich Cymuned, Eich Dewis (Cronfa Ansawdd Bywyd) | Your Community Your Choice 2023 - The Winners - North Wales Police and Community Trust (pactnorthwales.co.uk) |
| Llwyddiannau PACT | PACT-Impact-Report-PUBLIC-ENG.pdf (pactnorthwales.co.uk) |
| Datganiad Caethwasiaeth Fodern (northwales-pcc.gov.uk) | https://www.northwales-pcc.gov.uk/modern-slavery |

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

HEDDLU GOGLEDD CYMRU

NORTH WALES POLICE

# POLISI GWERTH CYMDEITHASOL 2024